+44 (0) 1823 424260
info@trpresearch.com
www.trpresearch.com

Wellington House, Queen Street,
Taunton, Somerset TA1 3UF

Cynorthwy-ydd Ymchwil (Siaradwr Cymraeg) - Recriwtio ac Ymgysylltu

Cyflog	O £24,570 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn)
Lleoliad	Hybrid, ond bydd gofyn i fynychu cyfarfodydd tîm a hyfforddiant yn ein swyddfa yn Taunton
Math o Swydd	Parhaol, Rhan-amser (12 awr yr wythnos)
Dyddiad cychwyn	ASAP

Y Rôl

Ydych chi'n angerddol am gyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu? Yn Siaradwr Cymraeg rhugl? Os ydych, yna gallai ein rôl Recriwtio ac Ymgysylltu yn Gymraeg fod yr union beth rydych chi'n chwilio amdano.

Mae'r rôl hon yn rhan o'n tîm Mesuriadau. Mae'r tîm Mesuriadau yn creu ac yn gweinyddu holiaduron ar gyfer defnyddwyr wedi'u cynllunio i fesur defnydd, agweddau ac ymddygiadau o ran y cyfryngau. Mae'r defnydd o'r cyfryngau yn cynnwys teledu, ffrydio a radio, yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol. Defnyddir y data a gesglir gan TRP Research i helpu ein cleientiaid i wneud penderfyniadau strategol a thactegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cynnal nifer o baneli ar gyfer defnyddwyr gan gynnwys trpsurveys.com, surveypraeg.com, panelcyfryngau.cymru a mediaopinionsireland.ie.

Fel Cynorthwyydd Ymchwil Recriwtio ac Ymgysylltu, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â thîm bach o gydweithwyr i sicrhau bod gennym baneli sy'n gytbwys yn ddemograffig sy'n cynrychioli'r boblogaeth. Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd prysur gyda therfynau amser dyddiol ac wythnosol felly mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus yn blaenoriaethu a gweithio mewn ffordd dan bwysau amser. Mae meddu ar sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da hefyd yn allweddol gan y byddwch yn gweithio'n agos gyda'r tîm Mesuriadau ehangach i sicrhau bod terfynau amser a nôdau cyffredinol y tîm yn cael eu bodloni.

Yn benodol, byddwch yn gyfrifol am:

- Gyfathrebu gydag aelodau ein paneli, felly yn ymateb i ymholiadau sydd yn dod i fewnflychau a negeseuon uniongyrchol ar y cyfryngau cymdeithasol, yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Ysgrifennu deunydd cyfathrebu, rhai rheolaidd ac ad hoc, ar gyfer anfon negeseuon e-bost a holiaduron, cynlluniau ymgysylltu, straeon newyddion ar wefannau a'n cyfryngau cymdeithasol
- Cefnogi'r tîm Recriwtio ac Ymgysylltu, gan gynnwys creu syniadau i ymgysylltu ag aelodau presennol y paneli a recriwtio aelodau newydd i'r panel
- Cefnogi'r tîm Mesuriadau ehangach i sicrhau bod holiaduron yn cael eu hanfon ar amser

Bydd ein Cynllun Hyfforddi a Datblygu mewnol yn eich cefnogi ar eich taith wrth weithio i TRP Research. Mae aelodau presennol y tîm wedi datblygu o swyddi tebyg i swyddi uwch o fewn TRP Research.

Sgiliau a phrofiad

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (yn ysgrifenedig ac ar lafar)
- Yn greadigol, ac yn wych am feddwl am syniadau y gellir eu trosglwyddo i gynnwys effeithiol ac atyniadol
- Yn gyfathrebwr effeithiol sy'n gallu teilwra'r deunydd cyfathrebu y maent yn eu cynhyrchu i wahanol gynulleidfaoedd a demograffeg
- Yn gyfarwydd ag ymgysylltu trwy adnoddau cyfryngau (e.e. Meta, Spotify)
- Rhywun sydd â gwybodaeth weithredol dda am Microsoft Office, yn enwedig Word ac Excel
- Yn gyfarwydd â photoshop, Canva neu debyg
- Profiad o weithio o fewn fframweithiau cydymffurfiaeth – e.e. GDPR, Cynlluniau Iaith Gymraeg

Nodweddion

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Yn allblyg, yn ymgysylltu'n dda ac yn frwdfrydig
- Gyda sgiliau pobl a rhwydweithio cryf
- Yn gyfathrebwr hyderus, clir a grymus
- Yn drefnus ac yn gallu gweithio'n annibynnol yn ogystal fel rhan o dîm
- Yn gallu addasu a rheoli eu hamser yn dda, hyd yn oed pan fydd blaenoriaethau'n newid
- Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau clir a gweithio ar liwt ei hun a dangos blaengaredd pan fo angen
- Yn awyddus i ddatblygu

Y Cwmni

Yn TRP Research Ltd, rydym yn cyfuno ein gwybodaeth a'n harbenigedd o'r diwydiant cyfryngau â ffynonellau data presennol a gwreiddiol i greu ymchwil ystyrlon i'n cleientiaid. Mae ein tîm Mesur yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ein staff i gyflawni hyn.

Pam TRP Research?

Bydd ein Cynllun Datblygu mewnol yn gymorth i lunio eich datblygiad gyrfa o fewn TRP Research ac yn rhoi lawyer wedi'i deilwra i chi tug at gynnydd.

Bydd gennych hawl i 22.5 diwrnod o wyliau ynghyd â gwyliau banc y DU, gan gynyddu i uchafswm o 27.5 gyda phob blwyddyn o wasanaeth.

Rydym hefyd yn cynnig hyblygrwydd gwyliau, sy'n eich galluogi i gario gwyliau o un flwyddyn ariannol i'r llall a phrynu hyd at 10 diwrnod ychwanegol o wyliau.

Yn ogystal â'ch hawl statudol i absenoldeb teuluol, rydym yn cynnig 6 wythnos o absenoldeb â thâl i rieni ar 70% o'u cyflog wythnosol cyfartalog.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 3 mis o leiaf, bydd gennych hawl hefyd i ymuno â'n cynllun Gofal Iechyd Preifat sy'n cynnwys yswiriant teithio a phrofion llygaid am ddim, a lwfans arian i'ch helpu i dalu am sbectol, lensys a thriniaeth ddeintyddol.

Mae ein cynlluniau prynu beic a thechnoleg yn caniatáu i chi brynu cynyrch trwy aberthu cyflog mewn ffordd sy'n effeithlon o ran treth dros gyfnod o ddeuddeg mis. Mae Rhoi drwy Gyflogres (Payroll Giving) yn eich galluogi i wneud rhoddion elusennol.

Rydym yn cydnabod efallai y byddai'n well gennych rannu eich wythnos waith rhwng ein swyddfeydd a'ch cartref, ac rydym yn annog pawb i gymryd rhan mewn trafodaeth gyda'u rheolwr am eu dewisiadau.

Sut i wneud cais

I wneud cais, lawrlwythwch ffurflen gais o'n gwefan ac e-bostiwch eich ffurflen wedi'i chwblhau yn Saesneg i careers@trpresearch.com Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 28 Mawrth 2025.

Ochr yn ochr â'ch ffurflen gais, darparwch lythyr eglurhaol yn Gymraeg hefyd yn esbonio pam mae'r rôl hon o ddiddordeb i chi. Dylai hyn gynnwys y wybodaeth a roddwch yn Saesneg yn adran wybodaeth ategol eich ffurflen gais.

Mae TRP Research Ltd yn gyflogwr cyfle cyfartal.